

## Y DIWEDDARAF AM COVID-19

### *Diogelu aelodau*

#### Y diweddaraaf am y canlynol:

- Llythyr NASUWT at y Gweinidog Addysg
- Methiant i roi darpariaethau diogelwch COVID-19 ar waith, gan gynnwys cadw pellter cymdeithasol, yn y gweithle
- Gweithgareddau cymdeithasol mewn ysgolion
- Newidiadau i arferion gweithio mewn ymateb i COVID-19
- 'Archwiliadau dirybudd' sy'n gysylltiedig â COVID-19 mewn ysgolion gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Profi ac olrhain – gohebiaeth NASUWT gyda Phrif Weinidog Llywodraeth Cymru

#### Llythyr NASUWT at y Gweinidog Addysg

Mae Ysgrifennydd Cyffredinol NASUWT wedi ysgrifennu at Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg [www.nasuwt.org.uk/Covid19AutumnTermWales](http://www.nasuwt.org.uk/Covid19AutumnTermWales), i roi gwybod iddi bod yr Undeb yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n ofalus o ran gweithredu'r polisi o ailagor ysgolion mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a lles aelodau. Mae'r llythyr yn datgan bod aelodau NASUWT yn bryderus iawn, gyda'r cynnydd yn nifer yr achosion o COVID-19 yn y gymuned ehangach a'r diffyg mesurau rheoli effeithiol, bod cynnydd yn y risg o drosglwyddo COVID-19 mewn ysgolion.

Mae'r llythyr hefyd yn nodi nad yw'r Adran Addysg yn gallu darparu unrhyw dystiolaeth o effeithiolrwydd y mesurau rheoli risg a argymhellir yng Nghlanllawiau Gweithredol Llywodraeth Cymru i ysgolion. Mae'n mynd ymlaen i nodi bod yr aelodau'n rhoi gwybod am bryderon ynghylch y canlynol:

- y gostyngiad yn nifer y staff mewn ysgolion;
- y risg uwch i athrawon agored i niwed;
- y diffyg trefniadau cadw pellter cymdeithasol mewn ysgolion ac absenoldeb cyfarpar diogelu personol ac ymyriadau anfferyllol effeithiol eraill;
- methiant y system profi ac olrhain.

Mae'r llythyr yn pwysleisio'r materion difrifol sydd wedi codi o ganlyniad i benderfyniad y Llywodraeth i agor ysgolion a'i methiant i wneud y canlynol:

- rhoi sylw priodol i'r heriau ymarferol a logistaidd mewn ysgolion er mwyn bodloni'r galw am arferion gweithio diogel o ran COVID;

- darparu canllawiau a mesurau cadarn drwy'r wlad i sicrhau arferion gweithio diogel o ran COVID;
- rhoi mesurau priodol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth ym mhob ysgol.

Mae'r llythyr hefyd wedi rhoi rhybudd i'r Llywodraeth drwy gadw hawliau cyfreithiol yr aelodau yn benodol yng nghyd-destun hawliad camweddus am dorri dyletswydd gofal ac anaf personol oherwydd materion mae modd eu rhagweld ac unrhyw gamau cyfreithiol eraill sydd ar gael.

### **Methiant i roi darpariaethau diogelwch COVID-19 ar waith, gan gynnwys cadw pellter cymdeithasol, yn y gweithle**

Mae NASUWT wedi cael nifer sylweddol o ymholiadau gan aelodau ynghylch cydymffurfio â'r mesurau diogelwch COVID-19 y mae cyflogwyr wedi'u rhoi ar waith, yn enwedig y mesurau cadw pellter cymdeithasol.

Mae'n rhaid i gyflogwyr gynnwys yn eu hasesiad risg y mesurau maen nhw'n eu rhoi ar waith i sicrhau eu bod yn cymryd pob cam rhesymol i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles cyflogeion, yn unol â'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch. Mae hyn yn cynnwys y mesurau sy'n ymwneud â chadw pellter cymdeithasol rhwng oedolion, a rhwng oedolion a disgyblion, yn y gweithle.

Nid ymarfer papur yn unig yw asesiadau risg. Mae sail statudol iddynt.

Mae gan **gyflogwyr** ddyletswydd gyfreithiol i wneud yn siŵr bod y mesurau yn yr asesiad risg yn cael eu rhoi ar waith ac maen nhw'n agored i gamau cyfreithiol os nad ydynt yn gwneud hynny.

Mae rhai o'r aelodau wedi rhoi gwybod i NASUWT eu bod wedi dangos enghreifftiau i'w cyflogwr lle'r oedd y mesurau diogelwch yn cael eu torri, gan gynnwys cadw pellter cymdeithasol, ond na chymerwyd unrhyw gamau. Rhaid i aelodau wneud yn siŵr eu bod yn nodi unrhyw ddigwyddiad yn ysgrifenedig, gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir gan NASUWT [www.nasuwt.org.uk/Covid19 AutumnTermWales](http://www.nasuwt.org.uk/Covid19_AutumnTermWales) ac anfon y ffurflen hon at eu pennaeth a chopi at NASUWT [rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk](mailto:rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk). Os na fydd y cyflogwr yn cymryd camau mewn perthynas â'r adroddiad digwyddiadau, dylid cysylltu â NASUWT ar unwaith i gael cyngor.

Mae gan **gyflogeion** (mae hyn yn cynnwys penaethiaid) ddyletswydd statudol o dan adran 7(a) – (b) o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith i:

- cymryd gofal rhesymol dros eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac eraill y gallai eu gweithredoedd neu eu hesgeulustod effeithio arnynt wrth eu gwaith;
- cydweithredu â'u cyflogwr cyn belled ag y bo angen fel bod modd cydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd neu ofyniad statudol sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch.

Pan fydd y llywodraeth/cyflogwyr wedi cyhoeddi canllawiau clir ar gadw pellter cymdeithasol yn y gweithle, gall hyn fod yn delerau datganedig neu delerau ymhlgy yng nghontract cyflogaeth y gweithiwr. Felly, os na fydd y gweithiwr yn dilyn y canllawiau, gallai'r cyflogwr ystyried hynny yn fethiant i ddilyn cyfarwyddyd rhesymol ac fe allai arwain at gamau disgyblu.

Cyfrifoldeb pob aelod o staff yw gofalu am ei ddiogelwch ei hun yn ogystal â diogelwch pobl eraill, a rhaid cadw pellter cymdeithasol rhwng aelodau o staff bob amser.

## **Gweithgareddau cymdeithasol mewn ysgolion**

Mae nifer o'r aelodau wedi mynegi pryderon bod eu hysgolion yn trefnu gweithgareddau cymdeithasol ar gyfer y staff, ac maen nhw'n holi a yw'r rhain yn ddiogel neu'n briodol ar hyn o bryd. Mae'r gweithgareddau sydd wedi cael eu trefnu ar safleoedd ac y rhoddwyd gwybod amdanynt i NASUWT yn cynnwys barbeciws, swperau pysgod a sglodion a digwyddiadau cymdeithasol eraill i staff.

Y rhesymeg a roddir yn aml i gyfiawnhau'r gweithgareddau hyn yw eu bod yn cael eu gwneud er mwyn 'cefnogi lles staff'.

Mae aelodau wedi dweud eu bod yn teimlo'n bryderus iawn ynghylch y gweithgareddau hyn, yn enwedig y ffaith eu bod yn teimlo bod disgwyl neu ddyletswydd arnynt i fod yn bresennol.

Yng nghyd-destun COVID-19, ni ddylai ysgolion ystyried cynnal gweithgareddau fel hyn ar y safle nac oddi arno, nid yn unig oherwydd eu bod yn peri risg diangen o helpu i drosglwyddo'r feirws, ond hefyd oherwydd bod rheoliadau newydd wedi dod i rym ddydd Llun 14 Medi 2020 sy'n rhwystro mwy na chwech o bobl rhag ymgynnull. Mae'n amlwg bod gweithgareddau o'r fath yn ddigwyddiadau cymdeithasol ac yn torri rheoliadau COVID-19 y llywodraeth, felly gallai'r rheiny fod yn drosedd.

Cynghorir yr aelodau'n gryf i beidio â mynychu gweithgareddau o'r fath a chysylltu â NASUWT am gyngor pellach os yw eu cyflogwr yn bwriadu cynnal digwyddiadau o'r fath.

Dylai athrawon a phenaethiaid hefyd fod yn ymwybodol o'r ffaith eu bod yn agored i gael eu hadrodd i Gyngor y Gweithlu Addysg neu ei bod yn torri'r Safonau Athrawon os nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio'r llywodraeth y tu allan i'r gweithle.

## **Newidiadau i arferion gweithio mewn ymateb i COVID-19**

Nid oes amheuaeth bod athrawon a phenaethiaid wedi gorfod addasu'r rhan fwyaf o'u harferion gwaith arferol o ganlyniad i geisio sicrhau darpariaeth addysgol a gwneud ysgolion yn ddiogel rhag COVID. Bu'n rhaid i lawer o weithgareddau a oedd yn gyffredin mewn ysgolion gael eu hadolygu yn y cyd-destun newydd hwn. Mae'n dal yn rhy hawdd anghofio bod pasio dogfennau i gydweithwyr i'w llofnodi, a rhannu deunyddiau ysgrifennu, neu gacen pen-blwydd neu focs o fisgedi, oll nawr yn peri risg yn y gweithle.

Yn anffodus, mae'n ymddangos bod rhai ysgolion yn dal i geisio cynnal pethau sy'n cynyddu'r risg o drosglwyddo COVID-19. Mae'r rhain yn cynnwys pethau fel arsylwi yn yr ystafell ddosbarth, troeau dysgu, sesiynau galw heibio, nosweithiau/digwyddiadau ymgynghori wyneb yn wyneb â rhieni, diwrnodau agored, a ffug arholiadau gyda grwpiau mawr o ddisgyblion yn neuadd yr ysgol.

Cynghorir yr aelodau i ystyried yn ofalus yr arferion gweithio a'r gweithgareddau ysgol y disgwylir iddynt gymryd rhan ynddynt yn ogystal â meddwl yn ofalus am unrhyw weithgareddau y gallen nhw fod yn eu trefnu, ac i ystyried a yw'r rhain yn hanfodol neu'n ddiogel yn y cyd-destun presennol.

Edrychwch ar wefan NASUWT am ragor o gyngor a chyfarwyddyd.

## **‘Archwiliadau dirybudd’ sy’n gysylltiedig â COVID-19 mewn ysgolion gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch**

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cynnal archwiliadau dirybudd ym mhob gweithle, gan gynnwys ysgolion, ac mae wedi rhoi contract i ganolfan alwadau ymgymryd ag archwiliadau dros y ffôn.

Bydd canlyniadau'r archwiliadau dros y ffôn yn cael eu hadolygu gan arolygwyr yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i benderfynu pa ysgolion y mae'n rhaid i'r arolygydd ymweld â nhw.

Nod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yw cysylltu â 25% o ysgolion, sy'n cynnwys pob math o leoliad, gan gynnwys ysgolion preifat ac annibynnol, ac maen nhw hefyd yn chwilio am faterion sy'n gyffredin mewn awdurdodau lleol.

Os nad yw'r alwad yn rhoi'r sicrwydd a ddisgwylir, caiff ysgolion eu gwerthuso gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'u clustnodi ar gyfer ymweliad.

Mae'n ymddangos bod dau fater yn arwain at ymweliad gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, sef diffyg cadw pellter cymdeithasol a threfniadau glanhau annigonol. Mae hyn yn adlewyrchu'r pryderon mae aelodau NASUWT wedi bod yn eu codi.

Mae tua 20% o ysgolion yn cael eu cyfeirio i gael ymweliadau.

## **Profi ac olrhain – gohebiaeth NASUWT gyda Prif Weinidog Llywodraeth Cymru**

Mewn llythyr at y Prif Weinidog Mark Drakeford [www.nasuwt.org.uk/Covid19AutumnTermWales](http://www.nasuwt.org.uk/Covid19AutumnTermWales) mae NASUWT wedi mynegi pryderon difrifol ynglŷn â methiant system profi ac olrhain COVID-19 a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ysgolion.

Mae NASUWT wedi gofyn i'r Prif Weinidog gadarnhau'r canlynol i ysgolion:

- os cadarnheir bod gan ddisgybl neu aelod o staff COVID-19 neu symptomau, rhaid ei anfon adref/aros gartref a gofyn am brawf;
- dylai unigolion sydd yn yr un aelwyd â rhywun gyda COVID-19 hunanynysu ar unwaith am y cyfnod rhagnodedig;
- ni ddylai cyflogwyr beryglu iechyd a diogelwch cymuned yr ysgol;
- ni ddylent ddisgwyl na mynnu bod disgyblion neu staff sydd â symptomau COVID-19 yn aros yn yr ysgol, ac mae'n rhaid iddynt eu cyfarwyddo i aros adref;
- os nad oes modd iddynt gynnal lefelau staffio priodol oherwydd absenoldebau staff, dylent anfon grwpiau o ddisgyblion adref fel bod modd iddynt barhau i gynnal arferion gweithio diogel.

**Dylai aelodau sy'n poeni ynghylch y materion hyn neu unrhyw faterion eraill gysylltu â NASUWT ar unwaith i gael cyngor.**



E-bost: [rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk](mailto:rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk)